# Cwestiynau ac atebion ynglŷn â'n canllawiau ar y we

## Cynnwys:


- Pam mae fformat y canllawiau wedi newid o PDF?
- Sut y gallaf cael gafael ar y canllawiau?
- Sut y gallaf lywio drwy'r canllawiau?
- Ble mae'r adnoddau cysylltiedig?
- Ble mae'r cyfeiriadau cyfreithiol?
- Sut y gallaf chwilio drwy'r canllawiau?
- A allaf argraffu'r canllawiau?
- A allaf rannu dolenni i'r canllawiau?
- Sut y byddaf yn gwybod pan fydd y canllawiau wedi cael eu diweddaru?
- Beth os bydd angen help arnaf i?


## Pam mae fformat y canllawiau wedi newid o PDF?

Mae'n bwysig y gall pawb gael gafael ar ein canllawiau. Mae gennym ofyniad cyfreithiol i sicrhau bod ein gwefan yn hygyrch, dan Reoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau ac Apiau Dyfeisiau Symudol) 2018. Mae Swyddfa Digidol a Data Ganolog y Llywodraeth yn sicrhau y cydymffurfir â'r rheoliadau hyn, ac yn darparu canllawiau er mwyn deall y gofynion.

Mae ein gwefan yn cydymffurfio â safon 2.2 AA Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys Gwe (WCAG), sy'n golygu y gall y rhai ag anghenion mynediad (megis y rhai ag amhariad ar y golwg) ddefnyddio swyddogaethau cynwysedig neu dechnoleg gynorthwyol i gael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Mae ein Datganiad Hygyrchedd yn cynnwys rhagor o wybodaeth am hyn.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r safonau hygyrchedd, rydym wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio'r fformat PDF ac rydym yn gweithio tuag at gyflwyno'r holl ganllawiau ar ffurf ar y we, yn unol ag arferion modern a thechnoleg sy'n datblygu.

Yn ogystal â'n helpu i sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â'r safonau hygyrchedd, nod y dull gweithredu hwn yw gwneud y canllawiau yn haws eu llywio a'u defnyddio.

### Manteision allweddol cyflwyno canllawiau ar ffurf ar y we

- Drwy ddarllen y canllawiau ar y wefan yn hytrach na chadw neu argraffu dogfennau PDF, gallwch sicrhau eich bod bob amser yn ymwybodol o'r canllawiau a'r gofynion deddfwriaethol diweddaraf a mwyaf cywir.
- Gallwch rannu gwybodaeth drwy e-bostio dolenni i adrannau penodol o'r canllawiau.
- Gellir defnyddio'r cyfleuster chwilio yn adran canllawiau'r wefan i helpu i ddod o hyd i atebion i gwestiynau penodol.


- Gall ein cynnwys fod yn llai ailadroddus oherwydd gallwn ddefnyddio dolenni i adrannau perthnasol yn hytrach nag ailadrodd testun mewn sawl lle, sy'n golygu y bydd llai o ganllawiau i'w darllen a llywio drwyddynt.
- Bydd y Comisiwn yn gallu diweddaru pob fersiwn o'r canllawiau (h.y. ar gyfer gwahanol fathau o etholiadau) yn gyflymach ac yn fwy effeithlon pan fydd angen gwneud newid, sy'n golygu y bydd y canllawiau yn gyfredol er mwyn cefnogi is-etholiadau o unrhyw fath yn hytrach na chael eu diweddaru ar gyfer etholiadau a drefnwyd yn unig.
- Gellir hidlo'r canllawiau yn ôl lleoliad, sy'n golygu y gallwch ddarllen cynnwys sy'n berthnasol i'ch ardal chi yn unig sydd, eto, yn golygu bod llai o ganllawiau i'w darllen a'u llywio.

## Sut y gallaf gael gafael ar y canllawiau?

Mae'r dudalen lanio ar gyfer ein canllawiau yn eich galluogi i ddewis y math o ganllawiau yr hoffech gael gafael arnynt:




Os byddwch yn dewis ‘Ymgeisydd neu Asiant’, o'r man hwn byddwch yna'n gallu dewis y canllawiau craidd sydd eu hangen arnoch:



Unwaith y byddwch wedi cael gafael ar y canllawiau craidd sydd eu hangen arnoch, gallwch ddefnyddio'r hidlyddion i ddod o hyd i'r canllawiau penodol sydd eu hangen arnoch.

Mae fersiynau ar wahân o'r canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid er mwyn adlewyrchu pob math o etholiad.

Rydym yn dal i weithio ar symud ein holl ganllawiau presennol i'r ffurf ar y we. Yn y cyfamser, gellir cael gafael ar weddill y canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid yn is i lawr y tudalennau glanio perthnasol hynny yn y ffurf PDF bresennol.


## Sut y gallaf lywio drwy'r canllawiau?

Unwaith y byddwch yn y canllawiau rydych wedi'u dewis, bydd coeden lywio ar ochr dde'r dudalen yn dangos y prif adrannau yn y canllawiau hynny, yn debyg i'r rhannau a oedd yn y ffurf PDF yn flaenorol.

Er mwyn gweld adran benodol o'r canllawiau, cliciwch ar y pennawd yn y goeden lywio.


Pan fyddwch yn clicio ar bob pennawd, bydd y testun yn ymddangos wedi'i danlinellu, gan ddangos ble rydych yn y canllawiau. Yn yr enghraifft isod, rydych chi yn yr adran ‘Beth sydd angen i chi wybod cyn i chi sefyll fel ymgeisydd’. Gallwch weld bod y pennawd yn y goeden lywio wedi'i danlinellu a bod y testun yng nghanol y dudalen we yn cyfateb i'r pennawd hwnnw.

Ar gyfer yr adran hon, mae'r canllawiau wedi'u rhannu i gyfateb i bob un o'r tasgau cysylltiedig. Mae gan bob tasg ei phennawd ei hun ac mae'r penawdau hyn wedi'u mewnoli a'u trefnu o dan brif bennawd yr adran o'r canllawiau y maent yn berthnasol iddo, fel y gwelwch yn yr enghraifft isod.





Gallwch lywio drwy'r canllawiau, naill ai drwy glicio ar bob un o benawdau'r adrannau a'r penawdau tasgau cysylltiedig oddi tanynt yn eu dro, neu drwy sgrolio i waelod y

dudalen a chlicio ar y saeth i'r chwith neu i'r dde a fydd yn mynd â chi i'r dudalen nesaf neu'r dudalen flaenorol yn y canllawiau, fel y dangosir yn yr enghraifft isod.




## Ble mae'r adnoddau cysylltiedig?

Bydd rhai o'r adnoddau a ddarparwn yn ymddangos ym mhob adran berthnasol o'r canllawiau. Er enghraifft, bydd dolen i'r pecynnau enwebu yn ymddangos ar bob tudalen we berthnasol.



## Y ffurflen enwebu

Gallwch gael papurau enwebu gan Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu. Rhoddir manylion cyswllt ar ein gwefan. Fel arall, rydym wedi llunio dwy gyfres o bapurau enwebu sy'n cynnwys yr holl ffurflenni sydd eu hangen i enwebu ymgeisydd ar gyfer etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu neu Gomisiynydd yr Heddlu, Tân a Throseddu.

Pecyn enwebu - etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (DOCX)


Dylai eich enw a'ch disgrifiad (os byddwch yn dewis defnyddio un) gael eu nodi ar y ffurflen enwebu cyn i chi ofyn i lofnodwyr lofnodi'r ffurflen.

Rhaid i'r ffurflen enwebu gael ei chwblhau yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Canllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid yn etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

- Sut i ddefnyddio ein canllawiau ▾
- Yr hyn sydd angen i chi ei wybod cyn i chi sefyll fel ymgeisydd ▾
- Gwariant ymgeiswyr ▾
- Rhoddion ymgeiswyr ▾
- Ymgyrchu ▾
- Enwebiadau ▾
  - Cwblhau eich papurau enwebu ▾

Bydd dolenni i adnoddau eraill ar gael ar dudalen adnoddau ar wahân ar ddiwedd y goeden lywio.



## Cyflwyniad i'n canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid

Nod y canllawiau hyn yw rhoi cyngor ymarferol i unrhyw un sydd am sefyll fel ymgeisydd neu fod yn asiant mewn etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn Lloegr (ac eithrio ardaloedd yn Lloegr lle mae maer awdurdod [sir] cyfun yn ymgymryd â swyddogaethau heddlu a throseddu) a Chymru. Gall y broses o sefyll etholiad fod yn gymhleth, ond gobeithio y bydd y canllawiau hyn yn ei gwneud mor syml â phosibl.

Mewn rhai ardaloedd heddlu mae rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu hefyd yn cynnwys cyfrifoldeb am wasanaethau tân ac achub yn yr ardal.

Rhaid i ymgeiswyr a'u hasiantiaid ddilyn rheolau penodol a nodir mewn deddfwriaeth. Mae ein canllawiau yn nodi'r camau y mae angen i chi eu cymryd wrth sefyll mewn etholiad CHTh. Nid oes rhaid i chi ddilyn y canllawiau hyn, ond os gwnewch hynny, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

Mae'n cynnwys ffeithiau perthnasol yn ogystal â dolenni i ffynonellau gwybodaeth eraill. Mae pob adran yn cynnwys nifer o ffurflenni ac adnoddau, y gellir cael gafael arnynt yn uniongyrchol drwy ddolenni yn y testun.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn Sut i ddefnyddio ein canllawiau.

### Amserlen yr etholiad

Ar gyfer etholiadau a drefnwyd, byddwn yn cyhoeddi amserlen benodol a fydd ar gael ar ein gwefan.

Canllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid yn etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

- Sut i ddefnyddio ein canllawiau ▾
- Yr hyn sydd angen i chi ei wybod cyn i chi sefyll fel ymgeisydd ▾
- Gwariant ymgeiswyr ▾
- Rhoddion ymgeiswyr ▾
- Ymgyrchu ▾
- Enwebiadau ▾
- Pleidleisiau post ▾
- Diwrnod pleidleisio ▾
- Dilysu a Chyfrif ▾
- Ar ôl yr etholiad ▾
- Adnoddau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid yn etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

# Ble mae'r cyfeiriadau cyfreithiol?

Pan fydd canllawiau yn seiliedig ar ofynion deddfwriaethol, caiff hyn ei nodi gan rif cyfeirnod ôl-nodyn a fydd yn ymddangos wrth ymyl y testun fel yn yr enghraifft isod.

Yna, bydd y cyfeiriadau cyfreithiol yn ymddangos fel ôl-nodiadau ar waelod pob adran o'r canllawiau. Os byddwch yn clicio ar y rhif cyfeirnod yn y testun, bydd yn mynd â chi yn awtomatig i'r cyfeiriad cyfreithiol perthnasol ar waelod y dudalen.

## Pwy a all fod yn bresennol yn ystod y broses cyfrif a dilysu?

Mae gennych chi a'ch asiant etholiad yr hawl i fod yn bresennol yn y sesiynau dilysu a chyfrif ar gyfer unrhyw un o'r ardaloedd pleidleisio yn ardal yr heddlu. [1] Mae gennych chi a'ch asiant etholiad yr hawl hefyd i fod yn bresennol yn ystod y broses o gyfrifo'r canlyniad ar gyfer ardal yr heddlu. [2]

Hefyd, gallwch wahodd un unigolyn arall i fod yn bresennol yn y gweithrediadau hyn, a gallwch hefyd benodi asiantiaid yn benodol i fod yn bresennol yn y gweithrediadau hyn ar eich rhan. [3]

Mae gan is-asiant yr hawl i fod yn bresennol yn lle asiant etholiad, ond dim ond os yw'r gweithrediadau yn ymwneud â'r ardal y cafodd ei benodi i weithredu ynddi. [4]

Dylech sicrhau eich bod chi a'ch holl fynychwyr yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Swyddog Canlyniadau Lleol neu Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu.

Ceir manylion am sut i benodi asiantiaid yn Penodi eich asiantiaid cyfrif

1. Para 48 a 51, Atodlen 3, Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu 2012
2. Para 58, Atodlen 3, Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu 2012
3. Para 31, Atodlen 3, Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu 2012
4. Erthygl 27, Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu 2012


Canllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid yn etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

- Sut i ddefnyddio ein canllawiau
- Yr hyn sydd angen i chi ei wybod cyn i chi sefyll fel ymgeisydd
- Gwariant ymgeiswyr
- Rhoddion ymgeiswyr
- Ymgyrchu
- Enwebiadau
- Pleidleisiau post
- Diwrnod pleidleisio
- Dilysu a Chyfrif
  - Pryd a ble y cynhelir y cyfrif?
  - Pwy a all fod yn bresennol yn ystod y broses cyfrif a dilysu?
    - Beth yw gwaith asiant cyfrif?
    - Penodi eich asiantiaid cyfrif
    - Dyletswydd i sicrhau cyfrinachedd


# Sut y gallaf chwilio drwy'r canllawiau?

Rydym yn argymell yn gryf eich bod ond yn defnyddio'r cyfleuster chwilio o fewn adran canllawiau'r wefan yn hytrach na defnyddio peiriannau chwilio eraill neu gyfleuster chwilio ehangach y Comisiwn – mae prosiect i ystyried cyfleuster chwilio ehangach y wefan yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Mae'r cyfleuster chwilio am ganllawiau yn eich galluogi i ddod o hyd i wybodaeth am bwnc penodol o fewn y canllawiau drwy ddefnyddio'r opsiwn i chwilio am allweddair.

Y Comisiwn Etholiadol

English

Amdanom ni | Ein canllawiau | Pleidleisio ac etholiadau | Ymchwil, adroddiadau a data | Cofrestru a rheoleiddio gwleidyddol | Newyddion a safbwyntiau | Adnoddau

## Canllawiau: Ymgeisydd neu asiant

Rhannu'r dudalen hon:

Defnyddiwch yr hidlyddion 'Ble ydw i' a 'Math o etholiad' i gael cysylltiadau i'r canllawiau sydd eu hangen arnoch.
Cliciwch ar y math o etholiad rydych am gael mynediad ato i weld y gyfres lawn o ganllawiau ar gyfer y pwnc hwnnw.
Yn ogystal, gallwch ddefnyddio'r chwiliad allweddeiriau i'ch helpu i ddod o hyd i dudalennau penodol canllawiau.

**Ble ydw i** — Hidlo yn ôl lleoliad

**Math o etholiad** — Election type

**Chwilio'r canllawiau** — Chwilio'r canllawiau

Clirio pob hidlydd

I gael y canlyniadau gorau, dylech hefyd ddefnyddio'r hidlyddion ‘Ble ydw i’ a ‘Canllawiau ar’ ac yna teipiwch air neu ymadrodd cyffredin a chliciwch ar yr eicon chwyddwydr.

Byddwch yn gweld rhestr o ganlyniadau y gallwch glicio arnynt, sydd wedi'u blaenoriaethu yn ôl y cynnwys mwyaf perthnasol.

Bydd nifer yr opsiynau a fydd yn ymddangos yn dibynnu ar natur eich chwiliad a pha mor benodol yw'r term rydych wedi chwilio amdano.

Os bydd angen, gallwch greu fersiwn PDF o'r canllawiau a chwilio drwyddi o hyd. I wneud hyn, defnyddiwch yr opsiwn ‘Argraffu canllaw llawn’ a dewiswch yr opsiwn i gadw fel PDF yn hytrach nag argraffu. Mae hyn yn eich galluogi i gadw canllawiau fel PDF yn y lleoliad o'ch dewis, sy'n golygu y gallwch chwilio drwy'r PDF gan ddefnyddio'r dull blaenorol os byddwch yn dewis gwneud hynny.

## A allaf argraffu'r canllawiau?

Gallwch. Drwy glicio ar y ddolen ‘Argraffu canllaw llawn’ gallwch argraffu'r canllawiau yn eu cyfanrwydd. Gallwch hefyd ddewis argraffu tudalen benodol drwy glicio ar yr eicon argraffydd (fel y dangosir isod) ar bob tudalen o'r canllawiau.



Cofiwch edrych ar y fersiwn o'r canllawiau ar y we bob amser wrth gyfeirio at gopïau wedi'u hargraffu er mwyn sicrhau eich bod yn defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf o'r canllawiau bob amser.

## A allaf rannu dolenni i'r canllawiau?

Gallwch. Mae pob tudalen o'r canllawiau ar wahân, felly gallwch rannu dolen i unrhyw dudalen o'ch dewis. Os byddwch yn clicio ar yr eicon ‘e-bost’ byddwch yn gallu rhannu dolen yn uniongyrchol o'r wefan ei hun.



## Sut y byddaf yn gwybod pan fydd y canllawiau wedi cael eu diweddaru?

Pan wneir newidiadau sylweddol i'r canllawiau byddwn yn cyhoeddi hyn yn ein bwletinau ar gyfer gweinyddwyr etholiadol a phleidiau gwleidyddol. Byddwn hefyd yn tynnu sylw at newidiadau mewn gweminarau a sesiynau galw heibio ymgeiswyr cyn etholiadau. Caiff y diweddariadau hyn eu crynhoi mewn cofnod o newidiadau y gellir dod o hyd iddo ar y dudalen lanio ar gyfer pob casgliad o ganllawiau. Hefyd, mae bwlch ar waelod pob tudalen sy'n dangos pryd y diweddarwyd y dudalen honno ddiwethaf, felly byddwch yn gwybod os bydd y canllawiau wedi cael eu diweddaru ers y tro diwethaf i chi edrych arnynt.

| |
|---|
| Diweddarwyd ddiwethaf: 16 Ebrill 2024 |

## Beth os bydd angen help arnaf i?

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon, neu os bydd angen rhagor o gymorth arnoch, cysylltwch â:

- **Yng Nghymru** gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
- **Yn Lloegr** infoengland@electoralcommission.org.uk
- **Yn yr Alban** infoscotland@electoralcommission.org.uk